# CYNGOR CYMUNED BETWS YN RHOS A LLANELIAN YN RHOS.

# BETWS YN RHOS AND LLANELIAN YN RHOS COMMUNITY COUNCIL

CLERC : Mel Jones, 2 Lon Hafan Abergele LL22 8QJ
Ffon : 07833 548435 e-bost : clerc@betwsallanelian.org.uk

**COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD YN CANOLFAN GYMUNEDOL LLANELIAN AM 7.30 y.h. NOS LUN 4ydd TACHWEDD 2024.**

## 1. CROESO

Croesawyd y Cynghorydd John EVANS pawb i'r cyfarfod yn y Neuadd Gymunedol newydd yn Llanelian sydd yn adeilad ardderchog i'r ardal.

## 2. YN BRESENNOL

Y Cynghorion John Evans, Irwedd GRIFFITHS, Glena Humphrey, Gwenda DAVIES, Goronwy R. WILLIAMS, Gethin OWEN, D. Gwyn Jones, Hefin WILLIAMS, Bryn JONES, Clerc – Mel Jones

## 3. YMDDIHEURIADAU

Cynghorydd y Sir - Ifor G. Lloyd

## 4. DATGANIAD O DDIDDORDEB

Atgoffer yr aelodau eu bod i ddatgelu bodolaeth a natur unrhyw ddiddordebau personol gan ddefnyddio'r ffurflen a ddarperir ar gyfer hynny.

Mae'r Cynghorydd Ifor LLOYD yn nawr yn Gadeirydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ac felly na all gymryd rhan mewn unrhyw benderfyniadau a wneir ar geisiadau sy'n cael eu trafod, ond y gallai ateb cwestiynau yn ymwneud â rheolau cynllunio a pholisïau.

Nid oedd datganiad o ddiddordeb gan unrhyw un a oedd yn bresennol.

## 5. COFNODION

Cytunwyd i gadarnhau, cymeradwyo ac arwyddo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 7 fed Hydref 2024 (Cynnig – Cynghorydd Irwedd GRIFFITHS ac eilwyd gan y Cynghorydd Glena Humphrey )

## 6. MATERION YN CODI

Roedd dim materion yn codi.

## 7. CYLLID

Cafwyd Adroddiad Misol am y cyfnod dod i ben 20fed Hydref 2024.

Nododd yr aelodau y sefyllfa araiannol a'r adroddiadau banc fel a restrir isod:-

| | |
|---|---|
| **Cyfrif Cymunedol** | = £6,865.92 (Dwyn Ymlaen) |
| Arian i Mewn | = DIM |
| Arian Allan | = £570.12 (Cyflog y Clerc – SO) |
| | = £142.40 (HMRC – cyflog y Clerc) |
| | = £59.40 (Aston Hughes – gwaith cyflogi) |
| | = £60.00 (Hilda Gibbs – Gwaith garddio) |
| | = £5.00 (Costau Banc) |
| **Cyfrif Cymunedol** | = £6,171.40 (Cludwyd Ymlaen) |
| **Cyfrif Busnes** | = £5,725.57 (Dwyn Ymlaen) |
| Arian Allan | DIM |
| Arian i Mewn | DIM |
| **Cyfrif Busnes** | = £5,725.57 (Cludwyd Ymlaen) |
| **Cyfanswm** | **= £11,896.97 (Cludwyd Ymlaen)** |

Cytunodd pawb a'r adroddiad yma.

Yn dilyn yr Archwiliad Mewnol mae'n rhaid yn awr gael cytundeb y Cyngor i dalu pob anfoneb

Mae'r anfonebau a restrir isod angen ei talu:

I ddod £157.42 Wifi wedi ei osod yn Llanelian a £86.28
BT – Anfoneb misol WiFi sydd nawr yn cynnwys Neuadd Gymunedol Llanelian

Cytunodd pawb i'r Clerc dalu yr anfoneb yma.

## 8. GOHEBIAETH

**Derbynwyd**

1. Cais gan Andrew Roberts, Tenovus (Gofal Cansar) i siarad hefo'r Cyngor am y gwasanaeth. Y Clerc i gynnig iddo ddod i gyfarfod Chwefror 2025.
2. Cais gan Adrian Owen, Hospis Sant Dafydd, Llandudno i siarad hefo'r Cyngor am y gwasanaeth. Y Clerc i gynnig iddo ddod i gyfarfod Mawrth 2025.
3. Ebyst arferol oddi wrth Un Llais Cymru, Gwasanaeth Cyhoeddus Gweithredol ayyb gyda'r rhai perthnasol yn cael ei gyrru ymlaen i'r Cynghorwyr. Mae rhain ar gael gan y Clerc

**Anfonwyd**

1. Sylwadau ar geisiadau cynllunio i Adran Gynllunio CBSC
2. Llythyrau ac ebyst i'r Cynghorwyr yn dilyn negesuon, llythyrau ac ebyst yn dod i law.

## 9. GRANTIAU

### a. Ceisiadau i'r Cyngor

Diweddaraid gan y Clerc fod dim record fod taliad wedi cael ei wneud at y gost o dorri glaswellt yn Mynwent Trofarth fel sonwyd yn y llythyr gan Mrs Ann Vaughan yn y cyfarfod diwethaf. Roedd dim record fod cais wedi ei dderbyn am y dair blynedd diwethaf. Mae cais am £400 yn y praesept

Mae yr anfonebau ganlynnol heb ei dalu gan y Cyngor

2021-2022 - £580.00
2022-2023 - £580.00
2023-2024 - £375.00
Cyfanswm - £1,535.00

Roedd cydweld mae £400 y flwyddyn roedd y Cyngor wedi penderfynnu talu fel cymorth ariannol a dim tal am y gost i gyd

Roedd cytuniad i dair taliad o £400.00 – cyfanswm £1,200 – cael ei wneud.

Mae y Clerc wedi gofyn i Mrs Ann Vaughan yrru cais am yr arian pob blwyddyn.

Cododd Cynghorydd Bryn Jones achos Mynwent Betws yn Rhos oedd heb dderbyn taliad blynyddol o £500.00 gan y Cyngor Cymunedol ers 2020.
Y Clerc i gadarnhau os oedd dim taliadau wedi cael ei gwneud. Mae E bost gan pwyllgor y Fynwent i gael ei yrru i'r Clerc hefo'r manylion.

Roedd cydweld i'r arian cael ei dalu (£2,000) os oedd yr ymchwiliad yn dangos nad oeddent wedi cael ei talu.

Cododd Cynghorydd Gwyn Jones achos cinio henoed Llanelian sydd yn cael cefnogaeth blynyddol gan y Cyngor. Fydd y cinio yn y Llew Gwyn, Llanelian yn dechrau mis Rhagfyr.

Roedd cydweld i dalu grant o £450.00

b. **Ceisiadau gan y Cyngor**

Mae CVSC yn awr yn rhoi cymorth i'r Cyngor chwilio am grantiau i gefnogi projectau o fewn y gymuned.

Fydd yn gofyn rhoid cais i mewn yn y dyfodol i atgyweiro cae chwarae Betws yn Rhos.

10. **CYNLLUNIO - http://www.conwy.gov.uk/planningexplorer**

**CAIS NEWYDD**

**Cyfeirnod: 0/52040** **Ymgeisydd: Mr ELGAN JONES**

Cynllun: CLADDFA SILWAIR ARFAETHEDIG A GWAITH CYSYLLTIEDIG

Safle: Bryn Dansi Bryn Dansi Road Dolwen Betws Yn Rhos LL22 8NS

Wedi trafod y cynllun a edrych ar y manylion doedd dim gwrthwynebiad i'r cais. Mae y Cyngor yn fodlon I'r Adran Gynllunio wneud y penderfyniad wedi ystyried barn partiau eraill yn y proses.

Y Clerc i ddiweddaru yr Adran Gynllunio.

**CAIS NEWYDD**

**Cyfeirnod 0/52035** **Ymgeisydd: Mr Peter Ryan**

Cynllun: Codi wal gerrig ar y ffin yn nhu blaen yr eiddo, gyda chil bostiau pren a giât bren

Safle: Ty'n Y Coed, Cilgwyn Road, Llanelian Yn Rhos, Colwyn Bay. LL29 8YR.

Mae pobol lleol wedi codi pryder i Cynghorion ynglyn a uchder y wal.

Wedi trafod y cynllun a edrych ar y manylion doedd dim gwrthwynebiad i'r cais. Mae y Cyngor yn fodlon I'r Adran Gynllunio wneud y penderfyniad.

Y Clerc i ddiweddaru yr Adran Gynllunio.

**CAIS NEWYDD**

**Cyfeirnod: 0/52094** **Ymgeisydd: Pwyllgor Chwaraeon, Betws.**

Cynllun: Creu llefydd parcio newydd (ddim wedi dechrau) a gosod cynwysyddion storio (wedi'u gosod)

Safle: Sports Pavilion Dolwen Road Betws Yn Rhos LL22 8AW

Wedi trafod y cynllun a edrych ar y manylion doedd dim gwrthwynebiad i'r cais. Mae y Cyngor yn fodlon I'r Adran Gynllunio wneud y penderfyniad.

Y Clerc i ddiweddaru yr Adran Gynllunio.

**Cyfeirnod: 0/51976** **Ymgeisydd: Mrs Kate Fairhurst**

Cynllun: Adeiladu estyniad deulawr i ddarparu ystafell fyw deuluol ar y llawr gwaelod a phrif ystafell wely yn cynnwys en-suite ac ystafell wisgo ar y llawr cyntaf. Adeiladu dormer blaen gan ychwanegu un ffenestr Velux ar ochr y Gogledd a 3 ffenestr Velux ar ochr y De, i ddarparu goleuni naturiol. Y to i gynnal estyniad i baneli ffotofoltäig presennol

Safle: Bryn Carneddau Ty Mawr Road Betws Yn Rhos Abergele Conwy LL22 8D

**Dim penderfyniad wedi cael ei wneud gan Adran Cynllunio**

**Cyfeirnod: 0/51922** **Ymgeisydd: Gareth Williams**

Cynllun: Estyniad i'r Sied Amaethyddol er mwyn cael darpariaethau storio, fel y nodir yn y datganiad o anghenion y cleient.

Safle: Bethgeth Cill Llidiart Road Betws Yn Rhos LL22 8AG

**Wedi cael ei gymeradwyo gyda amodau gan Adran Cynllunio**

**Cyfeirnod: 0/51926** **Ymgeisydd: Ms Wendy Molloy**

Cynllun: Tocio'r canghennau sy'n dod dros yr eiddo: Coeden Dderw - Torri'r brig. Coeden Dderw Fythwyrdd - Tocio'r canghennau fetr uwchben y ty haf a thocio'r canghennau 3-4 metr.

Safle: Tu cefn o 8 Llys y Dderwen Betws yn Rhos Abergele Conwy LL22 8AQ

**Wedi cael ei gymeradwyo gyda amodau gan Adran Cynllunio**

## 11. MATERION ARCHWILIAD MEWNOL AC ALLANOL

Mae y dogfennau wedi cael ei gyrru i Archwiliad Cymru am yr archwiliad llawn.

Mae adroddiad yr Archwiliad Lleol wedi cael ei rhoi ar y wefan hefo atebion i'r pwyntiau oedd yr Archwiliad wedi ei godi.

## 12. MATERION CYNGOR SIR CONWY A'R CYNGHORYDD IFOR LLOYD

Derbynwyd ymddiheuriad gan Cynghorydd Ifor Lloyd

## 13. CYNNAL A CHADW ADNODDAU ARDAL Y CYNGOR CYMUNEDOL

### a. Caeau Chwaraeon Plant -Betws yn Rhos/Llanelian.

Mae'r Clerc wedi bod yn trafod gwahanol drofeydd gyda swyddogion Cymunedau, Ymgysylltu a Chyfranogiad – Conwy a Sir Ddinbych er mwyn casglu y gwybodaeth angenrheidiol a chostau ar gyfer chwilio am ffynonhellau ariannol fel grant o Fferm Wynt Gwynt y Mor, tuag at adnewyddu caeau chwarae plant Betws yn Rhos a Llanelian.

Fel diweddariad mae y Clerc yn dal i ddisgwyl trafod y cynllun hefo y Cyngor Sir achos nhw sydd y perchnogion o'r offer a'r cae.

Wedi cael ateb y Clerc i gysylltu hefo CVSC ynglyn a grantiau ar gael.

### b. Diffibrilwyr.

Y gwaith i leoli diffibrilwr newydd yn safle y bont newydd yn Dawn heb ei gwbwlhau. Dal i ddisgwyl amcangyfrif y gost. Mae Ifan Rowlands (Rheolydd Goleuadau Strydoedd Cyngor y Sir) yn dilyn hyn i fynnu.

Mae y ddau diffibrilwyr yn pentref Betws yn Rhos ac yr un yn Holland Arms wedi cael ei trosglwyddo i gyfrif newydd y Cyngor. Nid yw y ddau arall – Dolwen a Llanelian wedi cael ei trosglwyddo. Y Clerc yn dal i drio cysylltu a Tomos Hughes.

Mae padiau yn y pump diffibrilwyr eisiau ei newid. Nid yw y gost yn cael ei dalu gan y Bwrdd Iechyd a fydd rhaid i'r Cyngor dalu yn symud ymlaen.

Mae dau gwahanol gost - £125 yr un hefo 5 mlynedd cyn darfod neu £40 yr un hefo 18 mis cyn darfod. Os yw y padiau yn cael ei defnyddio mae rhaid ei newid.

Roedd cydweld i brynu pump pad am £40 yr un – cyfanswm £240 hefo treth ar werth (VAT)

c. **Yr Hwb**

Mae angen gwirfoddolwyr iw gynnal, a bydd ar agor o 9:00yb hyd at 12:00 yh bob bore Dydd Mawrth yn y Pafiliwn Chwaraeon yn Betws yn Rhos.

d. **Gwlau blodau/Meinciau Ffordd Abergele**

Mae Hilda Gibbs yn mynd i edrych ar ol y potiau blodau a'r meinciau yn symud ymlaen.

e. **Toiledau yn Betws yn Rhos/Llanelian**

Fydd rhaid i'r toiledau newydd gael ei adeiladu ar dalcen y Pafiliwn Chwareon. Fuasai rhaid i'r Pwyllgor Chwaraeon ymgeisio am y cynllun. Mae'r Cyngor Cymuned yn fodlon i gefnogi y Pwyllgor Chwaraeon.

Roedd diweddariad gan Cynghorydd John Evans fod Pwyllgor Eglwys Betws yn Rhos yn edrych at atgyweiro adeilad tu allan i'r eglwys fel toiled. Fydd diweddariad ar gael erbyn y cyfarod nesaf.
Mae'r Cyngor Cymuned yn fodlon i gefnogi y Pwyllgor yr Eglwys.

Mae y Cyngor Sir wedi gwneud penderfyniad fydd toiledau Llanelian yn cau. Mae y Clerc wedi trafod y penderfyniad hefo Rheolwr Cyfleusterau y Cyngor ac fydd yn bosib i'r Cyngor Cymundeol gymeryd y cyflusterau drosodd yn symud ymalen. Fydd rhaid i'r costau rhedeg gael ei talu gan y Cyngor Cymunedol.

Roedd penderfyniad fuasai'r Cyngor yn cymeryd yr adeilad drosodd. Y Clerc i gysyltu hefo'r Rheolwr Cyfleusterau a cael y manylion a diweddaru y cyfarfod nesaf yn mis Ionawr 2025. Mae y toiledau wedi ei cau tan Ebrill 2025.

f. **Materion arall**

Mae'r Clerc wedi ysgrifennu i Cyngor y Sir ynglyn am led y rhwystr (barrier) ar ffin y llwybyr cyhoeddus a'r ffordd fawr yng nghanol pentref Betws yn Rhos a hefyd y 'gazebo' dros yr afon yn Llais Afon sydd yn debyg i amharu hefo ochr yr afon. Mae Cyngor y Sir wedi ateb ac yn cael ymchwil o dan cyfeirnod 112632. Mae asesiad fod y gwaith yn ddi-frys.

Ynglyn a'r mater gododd Cynghorydd Irwedd Griffiths ar y15fed Gorffennaf am dro cul ar y ffordd rhwng Nant y Cohl a Bryn Derwen mae y gwaith yn dal i ddisgwyl.

Ynglyn a Safle Bws gorchuddiedig yn Betws yn Rhos. Mae y Clerc wedi ysgrifennu i'r Cyngor Sir. Yn disgwyl ateb.

Ynglyn a tocio ochr y ffordd ar gwrych yn Ffodd y Figin rhwng fferm Bryn Elain a Llanelian. Mae y gwaith wedi cael ei gwbwlhau.

Mae y cyflwr ofnadwy ar Ffordd y Mynydd, Betws yn Rhos wedi cael ei atgyweiro gan y Cyngor Sir.

Mae y gwrych yn 34 Ffordd Glan y Fedw, Betws yn Rhos wedi cael ei docio.

Roedd carafan fawr wedi cael ei danfon i Glan Gors, Llanelian ac mae pobol lleol yn gwestiynnu oedd cais cynllunio. Y Clerc i ysgrifennu i'r Adran Gynllunio

Mae coeden yn tyfu ar wal yn agos i'r hen doiledau/flats LLais Afon yn Betws yn Rhos. Y Clerc i ysgrifennu i'r Cyngor Sir.

Mae coeden yn tyfu yn wyllt i'r ffordd yn rhif 2 neu 3 Ffordd Dolwen, Betws yn Rhos. Y Clerc i ysgrifennu i'r Cyngor Sir

Fydd rhaid symud y goeden mwnci o'r safle yn ymyl y Pafiliwn Chwarae achos fydd y safle parcio newydd yn cael ei adeiladu. Cynghorydd John Evans yn mynd i drafod hefo Pwyllgor Chwareaon. Mae lle addas yn bellach i mewn ar ymyl y ffordd.

## 14. Y GYLLIDEB FLYNYDDOL / PRAESEPT

Mae'r Cyngor Sir wedi cytuno y praesept o £13,002.00
Fydd £4,334.00 yn cael ei dalu i'r Banc ar 19/4/24, 16/8/24 a 13/12/84

Fydd rhaid i'r praesept am 2025/26 gael ei gyflwyno I'r Cyngor Sir erbyn 17/1/2025.
Fe drafodwyd y praesept. Fydd y ffurflen yn cael ei derbyn yn dechrau mis Rhagfyr a fydd rhaid trafod yn llawn yn cyfarfod nesaf ar 6ed Ionawr 2025.
Fydd rhaid cynnwys y costau isod

1. Costau i'r Cyngor Cymuned cymeryf toiledau Llanelian drosodd
2. Cost WiFi yn Betws yn Rhos a Llanelian tua £936 y flwyddyn
3. Cost pads diffibrilwyr - £240.00
4. Cyflog y Clerc SCP 17 i godi o 1/4/2025 i £15.58 yr awr.
5. Cais gan Mrs Ann Vaughan am grant o £600.00 tuag at y gost o dorri glaswellt yn Mynwent Trofarth. Cytunwyd grant o £500.00
6. Cais gan Mr Richard Hughes, Capel Hyfrydle, Betws yn Rhos am grant tuag at Eisteddfod Calan Mai ar 26/4/2025. Cytunwyd grant o £300.00

Y Clerc i lenwi y ffurflen gais pan fydd yn ei dderbyn a fydd y cais yn cael ei trafod yn y cyfarfod nesaf ar y 6ed Ionawr 2025.

**15. FFERMYDD GWYNT TIROL AC ALLTRAETH AWEL Y MOR/GWYNT Y MOR/MONA**

Mae'r pwnc yma yn cael ei drafod ym mhob cyfarfod o'r Cyngor. Bydd y Cyngor yn cadw llygaid craff ar unrhyw gais a ddaw i fyny.
Gweler y linciau yma am wybodaeth i'r Ffermydd gwynt Alltraeth**:**
Overview
About us About the Project What the Project will look like Processes and Next Steps
Our work so far Interactions with other marine users
Information Hub Visualisations of the windfarm Interactive map.

**16. CANOLFAN GYMUNEDOL LLANELIAN YN RHOS**

Mae yr eitem yma ar yr agenda er mwyn cadw cofnod o sut mae y gwaith yn dod yn ei flaen, ac er mwyn rhoi cefnogaeth pan y bydd angen.
Rhoddodd Cynghorydd Gwyn Jones ddiweddariad fydd agoriad meddal ar y 17fed Tachwedd 2024 ag agoriad swyddogol yn y dyfodol.

**17. Y GADLAS**

Fydd erthygl yn cael ei ysgrifennu am Neuadd Gymunedol Llanelian.

## 18. UNRHYW FATER ARALL

Cododd y Clerc y goleuadau nadolig yn Betws yn Rhos. Fydd y gost gan Cyngor y Sir am ei gosod yn £396.00. Roedd penderfyniad i dalu y gost.

Fe cyntunwyd Cynghorion John Evans, Gethin Owen a Gwenda Davies i fod yn arwyddion i'r cyfrif Banc ac fe arwyddwyd gorchymyn newydd.

Gan nad oedd unrhyw fusnes arall fe ddaeth y cyfarfod i ben am 10.05 yh.

CADEIRYDD ……………………………………………… John EVANS

CLERC………………………………………………………… Mel Jones

DYDDIAD: 6ed Ionawr 2025